## ASTUDIAETH ACHOS: Grŵp Coetir Cymunedol Trefyclo

**Cyflwyniad**

Yn wreiddiol yn rhan o Grŵp Amgylchedd Dyffryn Tefeidiad, mae Grŵp Coetir Cymunedol Trefyclo, sef y Coedwigwyr i roi'r enw lleol arno, yn gweithio mewn coetir preifat o fwy na 40,000 o goed llydanddail brodorol. Roedd gan y Grŵp ddiddordeb mewn dysgu am arolygu'r coetir am adar a pheillwyr â'r nod o ddeall sut y gallai eu ffordd o reoli'r coetir effeithio ar rywogaethau ffawna coetir.

**Y Prosiect**

Cyfarfu staff Cysylltiadau Gwyrdd â'r Coedwigwyr i asesu lefel gyffredinol eu gallu mewn dulliau adnabod a chofnodi adar a pheillwyr. Arweiniodd hyn at ddau ddigwyddiad, sef Taith Gerdded Adar a Thaith Gerdded Ystlumod a phedair sesiwn hyfforddi. Yn ystod y sesiynau hyn, addysgwyd y cyfranogion sut i adnabod adar gan ddefnyddio cliwiau gweledol a chlywedol fel lliw, ymddygiad a galwadau adar cyffredin. Dysgodd y cyfranogion sut i sefydlu trawsluniau i gofnodi adar gan ddefnyddio Arolwg Adar Bridio cenedlaethol cydnabyddedig y BTO. Roedd hyn yn cynnwys methodoleg yr arolwg ac adnabod tiriogaethau adar bridio. Daeth y cyfranogion yn fwy hyderus ac roedden nhw'n gallu sefydlu trawsluniau yn y coetir. Gwnaethon nhw ofyn i staff Cysylltiadau Gwyrdd ddilysu hyn i wneud yn siŵr eu bod yn ei wneud yn iawn. Cafodd hyfforddiant i adnabod rhywogaethau peillwyr, gan gynnwys Cacwn, a sut i ddefnyddio cynllun arolygu Cenedlaethol syml, sef PoMS (Cynllun Monitro Peillwyr y DU) ei gynnal dros ddeuddydd.

**Allbynnau'r Prosiect**

Darparodd Cysylltiadau Gwyrdd un digwyddiad a chwe sesiwn hyfforddi. Mynychodd is-grŵp craidd bob un o'r sesiynau. Cynghorwyd y grŵp hefyd ar bwysigrwydd arolygu a chofnodi.

| Sesiynau Hyfforddi | Sesiynau | Cyfanswm y mynychwyr | Cyfarpar y gwnaed rhodd ohono |
|---|---|---|---|
| Taith gerdded adar | 1 | 9 | |
| Hyfforddiant arolygu ac adnabod adar | 2 | 9 | 3 blwch i'r titw |
| Arolwg peillwyr ac adnabod Cacwn | 2 | 9 | Canllawiau adnabod, llyfrynnau PoMS |
| Taith gerdded ystlumod | 1 | 7 | 2 flwch i ystlumod |




**Adborth**

Defnyddiwyd sylwadau o adborth cyfranogion i greu'r cwmwl geiriau addysgiadol hwn.
Mae'r cwmwl geiriau'n adlewyrchu cryn dipyn o ymgysylltu â deunydd y digwyddiad ac ansawdd uchel yr hyfforddiant.




**Deilliannau'r Prosiect**

- Daeth cyfranogwyr yn fwy hyderus i ddefnyddio technegau arolygu Cenedlaethol i gofnodi adar a phryfed peillio. Er mwyn helpu'r grŵp i lwyddo, awgrymwyd mwy o gyhoeddiadau a phethau eraill i'w darllen.
- Grymuswyd is-grŵp craidd i barhau â gwaith cofnodi bywyd gwyllt.
- Grymuswyd pobl i rannu hyfforddiant ag aelodau eraill o'r grŵp.
- Mae hyfforddiant a chyswllt wedi galluogi'r cyfranogion i ennill sgiliau a all fod o fudd i fywyd gwyllt yn y pen draw.
- Mae'r Grŵp nawr yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau allweddol i gofnodi adar a phryfed gan ddefnyddio offerynnau arolygu amrywiol.
- Trwy wneud arolygon blynyddol, gall y Grŵp ddefnyddio'r data a ddaw i'w rhan i fonitro newid mewn cynefin a fydd, yn ei dro, yn darparu sail ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd o reoli'r coetir yn y dyfodol.

**Coedwig Castlering**

Pan gymerodd Grŵp Coetir Cymunedol Trefyclo yr awenau i reoli Coedwig Castlering, ger Clawdd Offa, roedd yn llain 35 erw o goetir clir lle roedd y coed wedi'u cwympo; dim coed, dim ond bonion a nodwyddau! Ar uchder o ryw 340m, mae ganddo olygfeydd ysblennydd, ac yng nghanol y coetir ceir gwrthglawdd o'r oes haearn ar ffurf hirgrwn – Castle Ring. Gwnaeth y grŵp feithrin eu meithrinfa coed eu hunain a phlannu mwy na 35,000 o goed cyll a choed llydanddail.




